Gorffennol Digidol
Digital Past - 2020

MINECRAFT, SGRIALU, FORTECS-AMSER NEIDIO-I-FYNY
(a straeon eraill)

Polly Groom, Swyddog Prosiect, Cadw, a'r tîm Treftadaeth Ddisylw?

Mae Treftadaeth Ddisylw? yn cwmpasu amrywiaeth enfawr o dechnegau, gweithgareddau a phobl. Mae pob un o'n prosiectau rhanbarthol yn wahanol iawn, ond maent hwy i gyd wedi manteisio ar gymysgedd o dechnoleg ddigidol, archaeoleg "draddodiadol" a gweithgareddau creadigol. Bu rhai yn fwy llwyddiannus na'i gilydd. Yn y sesiwn hon fe gyflwynir safbwyntiau'r sefydliadau a'r cyfranogwyr ar nifer o weithgareddau, ac ystyriwn yr heriau sydd ynghlwm wrthynt a'r tybiaethau a wnawn am bobl ifanc ac am dreftadaeth ddigidol. Bydd hefyd yn llwyfan ar gyfer trafod y cyfeiriadau y gall prosiectau o'r fath fynd iddynt yn y dyfodol, a sut orau i sicrhau gwaddol cadarn i brosiectau sy'n derbyn cyllid am dymor byr yn unig.

Bywgraffiad

Rhaglen wedi'i hariannu gan y loteri sy'n ysbrydoli pobl ifanc i gymryd diddordeb yn eu treftadaeth leol ac i ymgysylltu â hi mewn ffyrdd creadigol ac anarferol yw Treftadaeth Ddisylw?. Mae Cadw, pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc ar hyd a lled Cymru i sicrhau llwyddiant y prosiect, gan annog y rheiny sy'n cymryd rhan i ddarganfod drostynt eu hunain y sgiliau, antur a hwyl bur y gall safleoedd treftadaeth eu cynnig.